# Cofnodion cryno - Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg

Lleoliad:

**Ystafell Bwyllgora 1 – y Senedd**

Dyddiad: Dydd Iau, 24 Medi 2015

Amser: 09.21 - 11.59

Gellir gwylio'r cyfarfod ar Senedd TV yn:
http://senedd.tv/cy/3232

## Yn bresennol

| Categori | Enwau |
|---|---|
| Aelodau'r Cynulliad: | Angela Burns AC<br>Keith Davies AC<br>Suzy Davies AC<br>Bethan Jenkins AC<br>David Rees AC (Cadeirydd)<br>Aled Roberts AC<br>Simon Thomas AC |
| Tystion: | Betsan O'Connor, Ein Rhanbarth ar Waith (ERW)<br>Eifion Evans, Ein Rhanbarth ar Waith (ERW)<br>Huw Foster Evans, Gwasanaeth Effeithiolrwydd a Gwella Ysgolion Rhanbarthol Gogledd Cymru (GwE)<br>Ian Budd, Gwasanaeth Effeithiolrwydd a Gwella Ysgolion Rhanbarthol Gogledd Cymru (GwE) |
| Staff y Pwyllgor: | Marc Wyn Jones (Clerc)<br>Sarah Bartlett (Dirprwy Glerc)<br>Sian Thomas (Ymchwilydd) |

**TRAWSGRIFIAD**

Gweld trawsgrifiad o'r cyfarfod.

## 1 Cynnig i ethol Cadeirydd dros dro

Etholwyd David Rees yn Gadeirydd dros dro, yn unol â Rheol Sefydlog 17.22.

## 2 Cyflwyniad, ymddiheuriadau a dirprwyon

Estynnodd y Cadeirydd groeso i aelodau'r Pwyllgor. Cafwyd ymddiheuriadau gan Ann Jones a John Griffiths, ac nid oedd unrhyw ddirprwyon.

Datganodd Simon Thomas fuddiant perthnasol gan fod ei blentyn yn ddisgybl yn ardal ERW. Datganodd Aled Roberts fuddiant perthnasol gan fod ei blentyn yn ddisgybl yn ardal GwE. Datganodd Keith Davies fuddiant perthnasol gan ei fod ar fwrdd llywodraethwyr un o'r ysgolion yn ardal ERW. Datganodd David Rees fuddiant perthnasol gan fod ei wyrion yn ddisgyblion yn ardal ERW.

## 3 Trafodaeth â Chonsortia Addysg Rhanbarthol – Ein Rhanbarth ar Waith (ERW)

Trafododd y Pwyllgor gasgliadau adroddiadau Estyn a Swyddfa Archwilio Cymru gyda chynrychiolwyr y Consortia Addysg Rhanbarthol.

Cytunodd ERW i ddarparu rhagor o wybodaeth am y materion ariannol a godwyd gan aelodau'r Pwyllgor.

## 4 Trafodaeth â Chonsortia Addysg Rhanbarthol – Gwasanaeth Effeithiolrwydd a Gwella Ysgolion Rhanbarthol (GwE)

Cytunodd GwE i baratoi nodyn am gost rhaglenni dileu swyddi.

## 5 Papurau i'w nodi

Nodwyd y papurau.

### 5.1 Llythyr gan NSPCC Cymru

### 5.2 Prifysgolion Cymru Nodyn briffio ar y gyllideb 2016-17 Llywodraeth Cymru

## 6 Cynnig o dan Reol Sefydlog 17.42 i benderfynu gwahardd y cyhoedd o weddill y cyfarfod

Derbyniwyd y cynnig.

## 7 Trafod blaenraglen waith y Pwyllgor

Cytunodd y Pwyllgor ar y flaenraglen waith. Cytunwyd y byddai’r rhaglen waith yn cael ei hystyried eto mewn cyfarfod yn y dyfodol.